

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON



28.04.21

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Diffibriwleiddiwr - Pleser yw cyhoeddi fod uned diffibriwleiddio wedi ei osod ac yn awr yn weithredol wrth y giât ym mhrif giât fynedfa i'r ysgol. Mae hwn mewn lleoliad sydd yn mynd i sicrhau fod nid yn unig yr ysgol, ond hefyd y gymuned leol yn gallu elwa o'r cyfleustra achub bywyd hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar i J. Wilson Contractors Ltd am ei gwaith caled a'i caredigrwydd am gyllido'r prosiect hwn. Mae Mr a Mrs J Wilson yn rhieni a'i plant Harry a Faye yn mynychu'r ysgol. Mae diolch hefyd i gwmni trydanwyr Mike Pryde Electrical Ltd am gefnogi efo'r gwaith. Ar ran cymuned yr ysgol a thu hwnt, diolch yn fawr.

Dydd Llun Gŵyl Banc Calan Mai - Hoffwn eich atgoffa y bydd yr ysgol ar gau ar ddydd Llun Mai y 3ydd gan y bydd yn Wyl Banc. Bydd yr ysgol yn ail agor i bawb ar ddydd Mawrth Mai y 4ydd.

Wythnos Ryngwladol - Bydd y plant yn cymryd rhan mewn dathliad wythnos ryngwladol yn ystod yr wythnos yn cychwyn dydd Llun Mai 17eg. Bydd pob dosbarth yn astudio gwlad benodol, yn dysgu am bethau fel traddodiadau, enwogion, bwydydd a lleoliadau. Bydd y plant yn cael cyfle i rannu gwybodaeth gyda dosbarthiadau eraill. Bydd athro/awes dosbarth eich plentyn yn eich hysbysu o ba wlad y byddant yn ei astudio.

Cynllun tymor i rieni - Yn ystod yr wythnos byddwch yn derbyn y cynllun tymor. Mae'r cynllun yn rhoi amlinelliad i chi o brif thema eich plentyn am y tymor. Gallwch gael mynediad i hwn drwy wefan yr ysgol neu drwy App yr ysgol.

Rhiant Lywodraethwr - Hoffwn eich hysbysu fod Mr Hywel Dodd wedi ail-ymuno a'r Corff Llywodraethol fel rhiant lywodraethwr. Mae Mr Dodd yn barod wedi bod yn aelod o Gorff Llywodraethol yr ysgol am dymor o bedair blynedd, ac felly yn cychwyn ar ei ail dymor fel rhiant lywodraethwr.

Cofiwch i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth